

Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2020/21

Cyflwyniad

Rheoli'r trysorlys yw rholi llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor wedi benthycu a buddsoddi symiau o arian sydd yn gymesur â'i weithrediadau ariannol, ac felly mae wedi ei amlygu i risgiau ariannol yn cynnwys colli cronfeydd a fuddsoddiwyd ac effaith newidiadau mewn cyfraddau llog ar reffeniw. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn greiddiol i reolaeth ariannol darbodus y Cyngor.

Mae rheoli risg y trysorlys yn y Cyngor yn cael ei wneud o fewn fframwaith *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Argraffiad 2017* (Cod CIPFA) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus sydd yn ei gweud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r strategaeth rheoli trysorlys cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Hefyd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllawiau ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol diwygiedig yn Nhachwedd 2019 sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad yma yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau LIC.

Strategaeth adolygedig: Yn unol â Chanllawiau LIC, bydd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Trysorlys adolygedig petai'r tybiaethau y mae'r adroddiad yma yn seiliedig arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, i raglen cyfalaf y Cyngor neu i lefel ei falans buddsoddi.

Cyd-destun Allanol

Cefndir economaidd: Bydd cynnydd y DU o ran negodi ei hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'i threfniadau masnachu i'r dyfodol, yn parhau i fod yn ddylanwadol iawn ar strategaeth reoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Roedd Chwyddiant Pris Defnyddwyr (CPI) y DU yn 1.3% o un flwyddyn i'r llall, oedd i lawr o 1.5% yn Nhachwedd. Cwmpodd chwyddiant craidd, nad yw'n cynnwys yr elfennau mwyaf ansefydlog, i 1.4% o 1.7% yn Nhachwedd. Dangosodd y data marchnad lafur mwyaf diweddar ar gyfer y tri mis i Dachwedd 2019 bod y gyfradd di-waith yn 3.8% tra bod y cyfradd gyflogaeth yn 76.3% yn uwch na blwyddyn yn gynharach (75.8%) a hefyd yn uwch na'r chwarter blaenorol (75.9%). Yn y tri mis hyd at Dachwedd 2019, arhosodd cyfanswm cyflog gweithwyr (yn cynnwys bonysau) yn ddigyfnewid ar 3.2%, tra bod twf cyflog rheolaidd yn nhermau nominal wedi arafu i 3.4% yn flynyddol. Yn y tri mis i Dachwedd 2019, mewn termau real (wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant pris defnyddwyr) roedd twf cyfanswm cyflog (yn cynnwys bonysau) yn 1.6% tra bod twf cyflog rheolaidd (ddim yn cynnwys bonysau) yn 1.8%.

Mae amcangyfrifon cyntaf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod GDP yn fflat yn Chwarter 4 2019 wrth i'r momentwm tanategol barhau i arafu. Mae hynny yn dilyn amcangyfrif adolygedig o dwf o 0.5% yn Chwarter 3. Er bod twf wedi arafu yn ystod y chwarter yma, amcangyfrifwyd bod GDP wedi cynyddu 1.4% yn 2018-2019, sydd ychydig yn uwch na'r twf o 1.3% yn 2017-2018.

Gan edrych ymlaen, mae Adroddiad Polisi Ariannol Banc Lloegr (arferai fod yn Adroddiad Chwyddiant Chwarterol) yn darogan y bydd twf economaidd yn codi yn ystod 2020 wrth i ansicrwydd ynghylch Brexit ddiflannu a rhoi hwb i fuddsoddi mewn busnes fydd yn helpu i GDP gyrraedd 1.6% yn Q4 2020, 1.8% yn Q4 2021 a 2.1% yn Q4 2022.

Bu i Fanc Lloegr gadw Cyfradd Banc ar 0.75% yn Ionawr 2020 ar ôl pleidlais 7-2 gan y Pwyllgor Polisi Ariannol. Rhai o'r dyfarniadau allweddol yn yr adroddiad oedd:

- rhagamcanir y bydd twf GDP byd-eang yn codi tuag at gyfraddau posibl
- mae'r adfywiad tybiannol yma, ynghyd â gostyngiad mewn ansicrwydd cysylltiedig â Brexit, yn hybu gwariant y DU yn uwch na thwf cyflenwad
- Bydd chwyddiant CPI yn dychwelyd i lefel darged o 2% ar ôl cyfnod cynnar y rhagamcaniad wrth i bwysau prisiau domestig gynyddu

Mae twf yn Ewrop yn parhau i fod yn feddal, a hynny wedi ei yrru gan economi sydd yn gwano yn Yr Almaen a welodd GDP yn disgyn -0.1% yn Q2, a disgwylir iddo lithro i ddirwasgiad technegol yn Q3. Roedd chwyddiant ardal yr Ewro yn 0.8% o un flwyddyn i'r llall y Medi, sydd yn llawer is na tharged y Banc Canolog o 'is na, ond yn agos i 2%' a hynny yn arwain i'r banc canolog yn cadw ei brif gyfradd llog ar 0% tra'n torri'r gyfradd cyfleuster adneuo i -0.5%. Yn ogystal â chadw cyfraddau llog ar lefelau hynod isel, cyhoeddodd ECB y byddai'n ailgychwyn ei raglen esmwytho meintiol o fis Tachwedd.

Yn UDA, dechreuodd y Gronfa Ffederal ei bolisi esmwytho meintiol eto yn 2019 fel ergyd ymlaen llaw yn erbyn twf economaidd sydd yn arafu yn fyd-eang ac yn UDA o ganlyniad i'r rhyfel fasnach barhaus gyda Tsieina. Yn ei gyfarfod diwethaf fe dorodd y Fed gyfraddau i 1.50-1.75% ac mae'r marchnadoedd arian yn disgwyl mwy o lacio ar bolisi ariannol yn 2020. Arafodd twf GDP UDA i 1.9% wedi'i flynyddoli yn Q3 o 2.0% yn Q2.

Rhagolwg credyd: Mae amodau credyd ar gyfer banciau mwyaf y DU wedi parhau i fod yn eithaf mwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ei ohirio dair gwaith yn 2019, ac er bod yna dal beth pryder am arafu economaidd yn fyd-eang, nid yw hynny hyd yma wedi amlygu ei hun mewn unrhyw broblemau credyd i fanciau. Yn y cyfamser, erbyn hyn mae'r diwygio bancio ar ôl yr argyfwng ariannol yn gyflawn i raddau helaeth, a'r banciau gwarchoddedig wedi cael eu hymgorffori yn y farchnad.

Bu banciau herio yn y penawdau yn 2019 gyda Metro Bank a Banc TSB yn cael cyhoeddusrwydd niweidiol ac yn dioddef gostyngiad mewn cwsmeriaid.

Gan edrych ymlaen, mae'r ansicrwydd ynghylch cyfnod pontio Brexit a'r posibilrwydd o ddirwasgiad byd-eang yn parhau i fod yn risgiau sylweddol sydyn wynebu banciau a chymdeithasau adeiladu yn 2020/21, a chynghorir ymagwedd ofalus tuag at adneuo bancio.

Rhagamcanion cyfraddau llog: Mae ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn rhagamcanu y bydd y Cyfradd Banciau yn aros ar 0.75% tan ddiwedd 2022. Tybir bod y risg mewn perthynas â'r rhagamcaniad yma yn pwysu'n sylweddol ar ostyngiad, ac mae hynny yn adlewyrchu ansicrwydd polisi'r llywodraeth ynghylch Brexit a'r cyfnod pontio, a'r arafu economaidd byd-eang parhaus. Ar ôl dynodi y byddai angen i gyfraddau llog efallai godi petai cytundeb yn cae ei wneud ynghylch Brexit, dywedodd Banc Lloegr yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym Mis Tachwedd a'i benderfyniad ar Gyfradd Banciau (pleidlais 7-2 i gadw'r cyfraddau) bod y MPC erbyn hyn yn credu bod hynny yn llai tebygol.

Mae arenillion gilt wedi codi ond yn parhau ar lefelau isel a disgwylir ond cynnydd bychan iawn o'r lefelau presennol yn seiliedig ar rhagfynegiadau Arlingclose ynghylch cyfraddau llog. Yr achos canolog yw y bydd arenillion gilt 10-mlynedd ac 20-mlynedd yn codi tua 1.10% a 1.40% yn ôl eu trefn yn ystod y cyfnod, gyda risgiau wedi eu cydbwysu'n gyffredinol o ran cynyddu a gostwng. Ond, mae ansefydlogrwydd tymor byr sydd yn deillio o ddirwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn ystod y cyfnod bron yn sicr.

Mae rhagfynegiad economaidd manylach ac ynghylch cyfraddau llog a ddarperir gan Arlingclose yn cael ei atodi yn Atodiad A.

Cyd-destun Lleol

Ar 31 Rhagfyr 2019, roedd gan y Cyngor £371.65m o fenthyciadau a £5.8m o fuddsoddiadau'r trysorlys. Mae hynny yn cael ei nodi'n fanylach yn Atodiad B.

Mae tabl 1 isod yn cynrychioli'r sefyllfa ragfynegi bresennol ar gyfer diwedd blynnyddoedd ariannol mewn perthynas â gofynion benthycia'r Cyngor. Yr enghraifft a roddir yw mai'r sefyllfa ddyled a ragdybir ar hyn o bryd ar gyfer 31 Mawrth 2020 yw £390.54m, y lefel benthycia a ragdybir ar hyn o bryd yw £371.43 o'i gymharu â'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf o £437.00m llai y lefelau cronfeydd a ragdybir a'r sefyllfa cyfalaf gweithio.

Tabl 1: Crynodeb o'r fantolen a rhagfynegiad

	31.3.19 Gwir £m	31.3.20 Rhogfynegiad £m	31.3.21 Rhogfynegiad £m	31.3.22 Rhogfynegiad £m	31.3.23 Rhogfynegiad £m
Cronfa Gyffredinol CFR	156.03	158.22	158.68	156.29	153.49
HRA CFR	271.73	307.21	335.95	356.47	380.19
Cyfanswm CFR	427.76	465.43	494.63	512.76	533.68
Llai: Atebolrwydd dyledion eraill*	(26.66)	(28.43)	(29.76)	(28.90)	(27.75)
Benthyciadau CFR	401.10	437.00	464.87	483.86	505.93
Llai: Benthyciadau allanol**	(367.60)	(371.43)	(327.25)	(322.73)	(318.65)
Benthyciadau mewnol	33.50	65.57	137.62	161.13	187.28
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithio	(48.79)	(46.46)	(40.49)	(37.45)	(36.83)
Buddsoddiadau trysorlys/(Benthyciadau newydd)	15.29	(19.11)	(97.13)	(123.68)	(150.45)

*prydlesau ac atebolrwydd PFI sydd yn rhan o gyfanswm dyled y Cyngor


** dim ond yn dangos benthyciadau y mae'r Cyngor yn rhwymedig iddynt ac nid yw'n cynnwys ailgyllido dewisol

Mae'r angen tanategol i fenthycia at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), tra mai cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yw'r adnoddau tanategol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddi o dan eu lefelau tanategol, a elwir ar brydiau yn fenthycia mewnol.

Mae gan y Cyngor CFR cynyddol o ganlyniad i'r rhaglen gyfalaf, ond buddsoddiadau isel, ac felly bydd yn ofynnol iddo fenthycia hyd at £131.34m yn ystod cyfnod y rhagamcaniad. Mae Cod darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyled y Cyngor fod yn is na'r ragamcan CFR uchaf yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos byd y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad yma yn ystod y cyfnod adrodd.

Meincnod Atebolrwydd: Mae Cod darbodus 2017 yn atgyfnerthu argymhelliad Pecyn Cymorth Rheoli Risg Trysorlys CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol (2012) i ddefnyddio ymarfer

meincnodi atebolrwydd, a bwriad y meincnod yw mesur gofyniad benthyciadau net prosiectau'r Cyngor ac ystyriaeth hylifedd tymor byr ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol.



Mae'r uchod yn gynrychiolaeth graffigol o Dabl 1; mae angen y Cyngor i fenthycia er mwyn ariannu gwariant cyfalaf yn cael ei gynrychioli gan linell Benthyciadau CFR (Gofyniad Ariannu Cyfalaf). Gellir gweld yn amlwg y bydd angen i'r Cyngor, rhwng 2019 a 2059, fenthycia er mwyn ariannu gwariant cyfalaf i'r dyfodol. Mae'n anodd rhagamcanu i ba raddau y bydd angen benthycia o'r fath y tu hwnt i'r tymor agos, fel y cynrychiolir hynny yn Nhabl 1; mae'r tabl a'r graff yn dangos y disgwylir i fenthyciadau CFR gyrraedd brig yn 2022-23 ar tua £506m ar gyfer y cyfnod a adroddir yn y strategaeth hon, a bydd gwir fenthycia ar yr adeg honno yn £319m a chronfeydd yn £37m sydd yn dangos angen tebygol i fenthycia £150m. Nid yw'r Cyngor yn cynllunio i gynnal buddsoddiadau ar lefel benodol; yn hytrach, mae'n amcanu at reoli llif arian er mwyn sicrhau lefel hylifedd sydd yn addas er mwyn bodloni gofynion ariannu tymor byr.

Strategaeth fenthycia

Ar 31 Mawrth 2020 rhagamcan y Cyngor yw caffael £390.54 miliwn o fenthyciadau, sydd yn gynydd o £22.94 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'r strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhagamcanion mantolen yn nhabl 1 yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl benthycia £78m miliwn yn ychwanegol yn 2020/21.

Amcanion: Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw sefydlu cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a sefydlu sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen yr arian hwnnw. Mae'r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau petai cynlluniau hirdymor y Cyngor yn newid yr amcan eilaidd.

Strategaeth: Mae strategaeth fenthycia'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd hirdymor y portffolio dyled. Gyda

chyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau hir dymor ar hyn o bryd, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthycia benthyciadau tymor byr yn hytrach.

Drwy wneud hynny, mae'r Cyngor yn gallu lleihau costau benthycia net (er gwaethaf incwm buddsoddi blaenorol) a lleihau risg cyffredinol i'r trysorlys. Bydd buddion benthycia mewnol/tymor byr yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial i ysgwyddo costau ychwanegol drwy ohirio benthycia i flynyddoedd yn y dyfodol pryd y rhagfynegir y bydd cyfraddau benthycia hirdymor yn codi ychydig. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'cost cario' yma a'r dadansoddiad adennill costau. Efallai bydd ei allbwn yn penderfynu a fydd yn Cyngor yn benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2020/21 gyda'r amcan o gadw costau llog i'r dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hynny yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cynyddu'r rhan fwyaf o'i fenthyciadau hirdymor gan PWLB, ond cododd y llywodraeth gyfraddau PWLB o 1% yn Hydref 2019, sydd yn golygu ei fod erbyn hyn yn opsiwn cymharol ddrud. Gall y Cyngor nawr edrych ar fenthycia unrhyw fenthyciadau hirdymor o ffynonellau eraill yn cynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyhoeddi bondiau neu offerynnau cyffelyb er mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA.

Hefyd, gall y Cyngor fenthycia mwy o fenthyciadau tymor byr er mwyn talu am brinder llif arian na chynlluniwyd.

Ffynonellau benthycia: Y ffynonellau benthycia hirdymor a thymor byr cymeradwyedig yw:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw gorff olynu
- unrhyw sefydliad a gymeradwyir ar gyfer buddsoddiadau (gweler Tabl 5 nes ymlaen)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu a awdurdodir i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- cronfeydd pensiwn y sectorau preifat a chyhoeddus yn y DU (ac eithrio Cronfa Bensiynau Clwyd)
- buddsoddwyr bondiau marchnad cyfalaf
- UK Municipal Bonds Agency plc ac unrhyw gwmni'au pwrpas arbennig eraill a grëwyd er mwyn galluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol

Ffynonellau eraill o gyllido dyled: Hefyd, gellir caffael cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthycia, ond y gellir eu dosbarthu fel atebolrwydd dyledion eraill:

- prydlesau
- Hurbrynu
- Menter Cyllido Preifat
- gwerthu ac adles

Asiantaeth Bondiau Cyngorau: Sefydlwyd Asiantaeth Bondiau Cyngorau y DU plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n amcanu at gyhoeddi bondiau ar y farchnad gyfalaf a benthycia'r enillion i awdurdodau lleol. Bydd hon yn ffynhonnell mwy cymhleth o arian na'r PWLB am ddau reswm: byd yn ofynnol i awdurdodau fydd yn benthycia i ddarparu gwarant i fuddsoddwyr bondiau i ad-dalu eu buddsoddiad petai'r asiantaeth yn methu â gwneud hynny am unrhyw reswm; a bydd yna amseroedd arwain o nifer o fisoedd rhwng ymrwymo i fenthycia a gwybod beth fydd y gyfradd llog fydd yn daladwy. Felly bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia gan yr Asiantaeth yn destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

LOBOs: Mae gan y Cyngor £15.3m o fenthyciadau LOBO (Opsiw'n Benthycwyr) pan fod gan y sawl sydd yn rhoi'r benthyciad yr opsiwn i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodol, ac yn dilyn hynny bydd gan y Cyngor yr opsiwn i naill ai dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r benthyciad am ddim cost ychwanegol. Mae gan yr holl LOBOs yma opsiynau yn ystod 2020/21, ac er bod y Cyngor yn deall bod benthycwyr yn annhebygol o ddefnyddio eu hopsiynau yn yr amgylchedd presennol o gyfraddau llog isel, mae yna elfen o risg ailgyllido o hyd. Bydd y Cyngor yn dewis yr opsiwn o ad-dalu'r benthyciadau LOBO am ddim cost os bydd yn cael y cyfle i wneud hynny.

Benthyciadau byr tymor a chyfraddau amrywiol: Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o godiadau tymor byr mewn cyfraddau llog, ac felly bydd yn destun y cyfyngiadau amlygiad i gyfraddau llog a geir yn y dangosyddion rheoli trysorlys isod.

Aildrefnu dyledion: Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu ac i naill ai dalu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol ar set o fformiwlâu seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Efallai y bydd benthycwyr eraill yn barod i negodi telerau adbrynu cynnar. Gall y Cyngor fanteisio ar hynny ac amnewid rhai benthyciadau gyda rhai newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, pan ddisgwylir i hynny arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg.

Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd buddsoddi, sydd yn cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant a balansau a chronfeydd a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddi trysorlys y Cyngor wedi amrywio rhwng £375k a £32 miliwn, a disgwylir y bydd lefelau cyffelyb yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Fel arfer nid yw benthyciadau i sefydliadau sydd yn darpar gwasanaethau cyhoeddus a phrynu eiddo buddsoddi yn cael eu hystyried fel buddsoddiadau trysorlys, felly mae'r rhain yn cael eu hystyried ar wahân yn Atodiad C.

Amcanion: Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, ac i ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd uchaf o adenillon neu arenillion. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw sefydlu cydbwysed priodol rhwng risg ac adenillon, gan leihau'r risg o ysgwyddo colledion o ganlyniadau i fethdaliadau, a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Pan ddisgwylir y bydd balansau yn cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, byd y Cyngor yn amcanu i gael cyfanswm adenillon sydd yn hafal neu yn uwch na'r gyfradd chwyddiant gyfredol, er mwyn cynnal pŵer gwari y swm a fuddsoddwyd.

Cyfradd llog negyddol: Os bydd y DU yn dioddef dirwasgiad yn 2020/21, mae yna siawns bychan y gallai Band Lloegr osod ei Gyfraddau Banc ar neu o dan sero, ac mae hynny yn debygol o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar bob opsiwn buddsoddi tymor byr risg isel. Mae'r sefyllfa yma eisoes yn bodoli mewn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill. Os digwydd hynny, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm a gytunwyd drwy gontract ar adeg aeddfedrwydd, er y gallai hynny fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyr yn wreiddiol.

Strategaeth: Mae'r Cyngor yn bennaf yn buddsoddi yn y tymor byr gyda'r pwyslais ar ddiogelwch a hylifedd yn hytrach nag arenillion; mae strategaeth fuddsoddi'r Cyngor yn cydnabod risg buddsoddi mewn adneuron banc na ddiogelir, ac oherwydd hynny mae'n cynnal portffolio cymysg o'r math yma o adneuron a Chronfeydd Marchnadoedd Arian a buddsoddiadau gyda'r Swyddfa Reoli Dyledion. Drwy barhau â pholisi o arallgyfeirio mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei amlygiad i methiant partion i gontract yn cael ei reoli a'i fonitro mewn ffordd effeithiol.

Modelau busnes: O dan y safon IFRS 9 newydd, mae cyfrifo ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar “fodel busnes” y Cyngor ar gyfer eu rheoli. Mae’r Cyngor yn amcanu at sicrhau gwerth o’i fuddsoddiadau trysorlys a reolir yn fewnol drwy fodel busnes o gasglu y llifoedd arian dan gontract, ac felly, pan fodlonir meini prawf eraill hefyd, bydd y buddsoddiadau yma yn parhau i gael eu cyfrifo am gost wedi ei amorteiddio.

Partïon i gontract cymeradwyedig: Gall y Cyngor fuddsoddi ei orbenion gydag unrhyw rai o’r mathau o bartïon i gontract yn nhabl 3 isod, yn ddibynnol ar y cyfyngiadau arian parod (yn ôl pob parti i gontract) a’r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Tabl 3: Partïon i gontract buddsoddi cymeradwyedig a chyfyngiadau

Sgôr credyd	Banciau heb ei diogelu	Banciau wedi’u diogelu	Llywodraeth	Corfforaethol	Darparwyr Cofrestredig
Llyw y DU	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	£ Anghyfyngedig 50 mlynedd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
AAA	£3m 5 mlynedd	£3m 20 mlynedd	£3m 50 mlynedd	£3m 20 mlynedd	£3m 20 mlynedd
AA+	£3m 5 mlynedd	£3m 10 mlynedd	£3m 25 mlynedd	£3m 10 mlynedd	£3m 10 mlynedd
AA	£3m 4 mlynedd	£3m 5 mlynedd	£3m 15 mlynedd	£3m 5 mlynedd	£3m 10 mlynedd
AA-	£3m 3 mlynedd	£3m 4 mlynedd	£3m 10 mlynedd	£3m 4 mlynedd	£3m 10 mlynedd
A+	£3m 2 mlynedd	£3m 3 mlynedd	£3m 5 mlynedd	£3m 3 mlynedd	£3m 5 mlynedd
A	£3m 13 mis	£3m 2 mlynedd	£3m 5 mlynedd	£3m 2 mlynedd	£3m 5 mlynedd
A-	£3m 6 mis	£3m 13 mis	£3m 5 mlynedd	£3m 13 mis	£3m 5 mlynedd
Cymdeithasau Adeiladu heb eu Graddio (ar gyngor)	£1m 6 Mis	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Dim	£1m 6 mis	Ddim yn berthnasol	£5m 25 mlynedd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Cronfeydd wedi’u cronni ac ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tirol			£3m am bob cronfa neu ymddiriedolaeth		

Mae’n rhaid darllen y tabl yma law yn llaw â’r nodiadau isod

Sgôr credyd: Mae cyfyngiadau buddsoddi yn cael eu pennu drwy gyfeirio at y sgôr credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd gan amrywiol asiantaethau graddio allanol. Pan fônt ar gael, bydd y sgôr credyd sydd yn berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddsbarth o fuddsoddiad yn cael ei ddefnyddio, fel arall defnyddir sgôr credyd y parti i'r contract. Ond, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud yn seiliedig ar sgoriau credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill yn cynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

Banciau heb ei diogelu: Cyfrifon, adneuron, tystysgrifau o adneuron ac uwch fondiau heb eu diogelu gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau yma yn destun risg o golli credyd petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler nes ymlaen ar gyfer trefniadau mewn perthynas â chyfrifon banciau gweithredol.

Banciau wedi'u diogelu: Bondiau gyda sicrwydd, cytundebau ailbrynu gwrthdro a threfniadau cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau yma yn cael eu diogelu ar asedau'r banc, sydd yn cyfyngu ar y colledion posibl yn achos digwyddiad annhebygol o ansolfedd, ac mae hynny yn golygu eu bod wedi eu hesemptio rhag mewn-ariannu. Pan nad oes sgôr credyd buddsoddiad-benodol, ond mae gan y trefniadau cyfochrog y diogelir y buddsoddiad arno sgôr credyd, bydd yr uchaf o'r sgôr credyd cyfochrog a sgôr credyd y parti i'r contract yn cael ei ddefnyddio i bennu cyfyngiadau arian parod ac amser. Ni fydd y buddsoddiadau cyfun a ddiogelir ac na ddiogelir yn uwch na'r cyfyngiadau arian parod ar gyfer buddsoddiadau a ddiogelir.

Llywodraeth: Benthyciadau, bondiau a biliau a roddir neu a warrantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol neu awdurdodau lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun mewn-ariannu, ac yn gyffredinol mae yna risg is o ansolfedd, er nad ydynt yn sero risg. Gellir buddsoddi yn Llywodraeth Ganolog y DU mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

Corfforaethau: Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a roddir gan gwmnïau nad ydynt yn fanciau neu'n ddarparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun mewn-ariannu, ond maent yn agored i'r risg o'r cwmni'n bod yn ansolfedd. Bydd benthyciadau i gwmnïau na raddiwyd dim ond yn dilyn asesiad credyd allanol.

Darparwyr Cofrestredig: Benthyciadau a bondiau a roddir gan, a warrantir gan neu a ddiogelir yn erbyn asedau darparwyr cofrestredig tai cymdeithasol a landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a elwid yn gymdeithasau tai. Mae'r cyrff yma yn cael eu rheoleiddio'n gaeth gan y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol Yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau (yng Ngogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn cadw'r tebygolrwydd o dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

Cronfeydd a gronnir: Cyfranddaliadau neu unedau mewn cerbydau buddsoddi amrywiol sydd yn cynnwys unrhyw rai o'r mathau o fuddsoddiadau uchod, a chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Mae gan y cronfeydd yma y fantais o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfeydd proffesiynol am ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sydd yn cynnig hylifedd yr un diwrnod ac ansefydlogrwydd isel iawn neu ddim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc mynediad syth bin, tra bydd cronfeydd a gronnir a mae eu gwerth yn newid yn unol â phrisiau'r farchnad /neu sydd â chyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

Mae bondiau, ecwiti a chronfeydd eiddo yn cynnig gwell adenillon yn yr hirdymor, ond maent yn fwy ansefydlog yn y tymor byr. Mae'r rhain yn galluogi i'r Cyngor arallgyfeirio i ddsbarthiadau asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i feddu ar neu reoli'r

buddsoddiadau tanategol. Oherwydd nad oes gan y cronfeydd yma ddyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond maent ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod rhybudd, bydd eu perfformiad a'r haddasrwydd parhaus o ran bodloni amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Ymddiriedolaethau buddsoddi mewn eiddo tirol: Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sydd yn buddsoddi'n bennaf mewn eiddo tirol ac sydd yn talu'r rhan fwyaf o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn ffordd sydd yn debyg i gronfeydd eiddo cronol. Fel yn achos cronfeydd eiddo, mae REITs yn cynnig gwell adenillon yn yr hirdymor, ond maent yn fwy ansefydlog yn arbennig oherwydd bod y pris cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw cyfnewidiol am gyfranddaliadau yn ogystal â newidiadau yng ngwerth yr eiddo tanategol. Ni ellir tynnu allan buddsoddiadau mewn REIT, ond gellir eu gwerthu ar y farchnad stoc i fuddsoddwr arall.

Cyfrifon banc gweithredol: Gall y Cyngor ysgwyddo amlygiad gweithredol, er enghraifft drwy cyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnach, i unrhyw fanc yn y DU sydd â sgôr credyd sydd yn is na BBB- ac sydd ag asedau sydd yn fwy na £25 biliwn. Nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau, ond maent yn dal yn destun risg mewn-ariannu banciau. Mae Banc Lloegr wedi nodi, mewn achos o fethiant, y bydd banciau gydag asedau sydd yn fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol gael eu mewn-ariannu na chael eu gwneud yn ansolfedd, ac mae hynny yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn cynnal parhad gweithredol.

Asesiadau risg a sgoriau credyd: Mae sgoriau credyd yn cael eu derbyn a'u monitro gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, fydd yn hysbysu am newidiadau mewn sgoriau pan maent yn digwydd. Pan israddir sgôr credyd endid, fel ei fod yn methu â bodloni meini prawf buddsoddi cymeradwyedig:

- ni fydd unrhyw fuddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud,
- gellir adalw unrhyw fuddsoddiadau sydd yn bodoli neu eu gwerthu am ddim cost, a
- bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i adalw neu werthu yr holl fuddsoddiadau eraill gyda'r parti i'r contract yr effeithir arno.

Pan fo asiantaeth graddio credyd yn cyhoeddi bod sgôr credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "gwyllo sgôr negyddol" neu "wyllo credyd negyddol") fel ei fod yn yn disgyn yn is na'r meini prawf cymeradwyedig, dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith canlynol fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw nes y cyhoeddir deilliant yr adolygiad. Ni fydd y polisi yma yn gymwys i ragolygon negyddol, sydd yn arwydd o gyfeiriad hirdymor yn hytrach na newid sgôr yn syth.

Gwybodaeth arall am ddiogelwch buddsoddiadau: Mae'r Cyngor yn deall bod sgoriau credyd yn ddangosyddion da, ond nid perfffaith, o ddiffygion mewn perthynas â buddsoddi. Felly bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, yn cynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posibl gan y llywodraeth, adroddiadau yn y wasg ariannol o safon a dadansoddiad a chynghor gan ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor. Ni fydd unrhyw fuddsoddiadau yn cael ei wneud gyda sefydliad os bydd yna amheuan sylweddol ynghylch ei ansawdd credyd, er y byddai efallai yn bodloni'r meini prawf uchod.

Pan fo amodau dirywiol yn y farchnad ariannol yn effeithio ar werth credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011, nid yw hynny yn gyffredinol yn cael ei adlewyrchu mewn sgoriau credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau yma, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn lleihau uchafswm cyfnod ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel ofynnol o ddiogelwch.

Bydd maint y cyfyngiadau yma yn unol ag amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os bydd y cyfyngiadau yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod y Cyngor ynddynt, bydd y gorbenion yn cael eu hadneuo yn Llywodraeth y DU drwy'r Swyddfa Reoli Dyledion neu'n cael eu buddsoddi mewn biliau trysorlys y llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hynny yn achosi gostyngiad yn lefel yr incwm buddsoddi a enillir, a byd yn cyfyngu ar hylifedd arian parod a roddir i'r Cyngor drwy ddefnyddio cyfrifon galw a rhybudd, ond bydd yn diogelu'r swm a fuddsoddir.

Cyfyngiadau buddsoddi: Rhagwelir y bydd cronfeydd refeniw y Cyngor fydd ar gael i dalu am golledion buddsoddi yn £19 miliwn ar 31 Mawrth 2020. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 15% o'r cronfeydd sydd ar gael yn wynebu risg mewn achos o ddiffyg unigol, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthycu i un sefydliad (ac eithrio Awdurdodau Lleol eraill a Llywodraeth y DU) fydd £3 miliwn. Bydd grŵp o fanciau o dan yr un berchnogaeth yn cael ei ystyried fel un sefydliad at ddibenion cyfyngiadau. Hefyd bydd cyfyngiadau yn cael eu rhoi ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebedig broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd a gronnir a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y cyfyngiad ar gyfer unrhyw un wlad dramor, oherwydd bod y risg yn cael ei daenu dros nifer o wledydd.

Tabl 4: Cyfyngiadau buddsoddi

	Cyfyngiad arian parod
Awdurdodau Lleol y DU	£5m yr un
Llywodraeth Ganolog y DU	anghyfyngedig
Unrhyw grŵp o sefydliadau o dan yr un berchnogaeth	£3m i bob grŵp
Unrhyw grŵp o gronfeydd a gronnir o dan yr un berchnogaeth	£3m i bob rheolwr
Offerynnau y gellir eu negodi a ddelir mewn cyfrif a enwebwyd gan frocer	£15 i bob brocer
Gwledydd tramor	£9m i bob gwlad
Darparwyr cofrestredig a landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Cyfanswm o £3m
Buddsoddiadau heb eu diogelu gyda chymdeithasau adeiladu	Cyfanswm o £7m
Cronfeydd marchnad ariannol	Cyfanswm o £15m
Ymddiriedolaethau buddsoddi mewn eiddo tirol	Cyfanswm o £9m

Rheoli hylifedd: Mae'r Cyngor yn defnyddio taenlen fewnol yn seiliedig ar offeryn rhagamcanu er mwyn pennu uchafswm y cyfnod y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Mae'r rhagamcaniad yn cael ei bennu yn sail ddarbodus er mwyn lleihau'r risg y bydd y Cyngor yn cael ei orfodi i fenthycu ar delerau anffafriol er mwyn bodloni ei ymrwymadau ariannol. Mae cyfyngiadau ar fuddsoddiadau hirdymor yn cael eu pennu drwy gyfeirio at gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a rhagolygon llif arian.

Dangosyddion Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog a bwysolwyd yn ôl gwerth ei bortffolio buddsoddi. Mae hynny yn cael ei gyfrifo drwy gymhwysu sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, etc.) a chymryd y cyfartaledd arithmetig, wedi ei bwysoli gan faint pob buddsoddiad. Aseinir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg tybiedig.

Dangosyddion risg Credyd	Targed
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	A

Hylifedd: Mae'r Cyngor yn cymryd yr holl ragofalon er mwyn sicrhau bod swm priodol o arian parod ar gael er mwyn bodloni taliadau annisgwyl yn ystod y tymor byr i ganolig; nid yw'r Cyngor wedi meintoli hynny gyda ffigur ar gyfer y dangosydd gwirfoddol yma oherwydd teimlir y gallai peri i hynny fod yn benderfynydd gweithredu ddylanwadu'n ddiangen ar benderfyniadau parthed llif arian Rheoli Trysorlys.

Amlygiadau i gyfraddau llog: Y risg bod amrywiadau yn lefel y cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu na gyllidwyd ar ei gyfer ar gyllid y Cyngor, nad yw'r sefydliad wedi llwyddo i ddiogelu ei hun rhagddo. Mae'r Cyngor yn gwarchod ei hun rhag y risg yma drwy fynd ati i

addasu ei amlygiad er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol ar y farchnad neu yn y sefydliad. Er nad yw'r Cyngor yn pennu cyfyngiadau ar gyfer mesur yr amlygiad yma yn eu herbyn, mae'n rhoi sylw dyledus i'r cyfyngiad blaenorol a bennwyd, sef 30% o'r cyfanswm dyledion yn cael ei amlygu i gyfraddau llog amrywiol.

Strwythur aeddfedu benthyciadau: Pennir y dangosydd yma er mwyn rheoli amlygiad y Cyngor i risg ailgyllido. Y cyfyngiadau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedu benthyciadau fydd:

Strwythur aeddfedu benthyciadau*	Cyfyngiad Uchaf	Cyfyngiad Isaf	Gwir Fenthyciadau ar 31/12/2019 £m	Gwir Fenthyciadau ar 31/12/2019 %
llai na 12 mis	30	0	59.48	16.01
12 mis ac o fewn 24 mis	20	0	4.51	1.22
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	20	0	11.97	3.22
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	80	0	51.53	13.86
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	80	0	163.30	43.94
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	80	0	21.83	5.87
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	80	0	59.03	15.88
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	80	0	0.00	0.00
50 mlynedd a mwy	90	0	0.00	0.00
Cyfanswm			371.65	100.00

Mae'r cyfnod amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod o ddeuddeg mis a ddaw yn syth ar ôl y dyddiad (h.y. 31 Rhagfyr 2019). Y dyddiad aeddfedwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Prifysymiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na blwyddyn: Pwrpas y dangosydd yma yw rheoli amlygiad y Cyngor i'r risg o ysgwyddo colledion drwy geisio ad-daliad cynnar ar ei fuddsoddiadau. Y cyfyngiadau ar y swm hir dymor a fuddsoddir hyd at aeddfedwydd terfynol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

Dangosyddion risg Pris	2020/21	2021/22	2022/23
Cyfyngiad ar brifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn	£10m	£10m	£10m

Materion Cysylltiedig

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli trysorlys.

Deilliadau Ariannol: Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio Deilliadau Ariannol: unigol (megis cyfnewidion, blaenyrru, dyfodol ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori i fenthyciadau a buddsoddiadau, yn cynnwys cronfeydd a gronnir a thrafodion dechrau ymlaen, a bydd y risgiau maent yn eu hachosi yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth rheoli risg gyffredinol y trysorlys.

Cyfrif Refeniw Tai: Fel rhan o raglen ddiwygio HRAS roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymryd benthyciadau o £146.2 miliwn er mwyn hwyluso'r pryniant cymhorthdal. Bu i'r Cyngor ystyried yr opsiynau oedd ar gael ar gyfer trin y gronfa fenthyciadau ar gyfer y Cyfrif refeniw Tai (HRA) a Chronfa'r Cyngor (GF). Ar ôl ystyried y mater yn ofalus a rhoi diwydrwydd dyledus i'r opsiynau oedd ar gael, ystyriodd y Cyngor mai parhau â'r dull un gronfa fyddai decaf wrth symud ymlaen; teimlwyd y byddai hollti'r benthyciadau rhwng HRA a CF yn mynd yn groes i egwyddor rheoli portffolio dyledion yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd.

Marchnadoedd Yng Nghyfarwydddeb Offerynnau Ariannol: Mae'r Cyngor wedi cadw statws cleient manwerthu gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, yn cynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr cronfeydd, sydd yn e alluogi i gael mynediad at amrediad llai o wasanaethau ond gyda mwy o gamau fesurau diogelu rheoleiddiol i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor, Mae'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh yn credu mai dyma'r statws mwyaf priodol.

Canllawiau'r Llywodraeth: Mae materion ychwanegol sydd yn ofynnol dan ganllawiau LIC yn gynnwysedig yn Atodiad C.

Goblygiadau Ariannol

Amcangyfrifir bod y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2020/21 yn £45k. Amcangyfrifir bod y gyllideb ar gyfer llog dyled a delir yn 2020/21 yn £14miliwn. Os bydd y gwir lefelau buddsoddi a benthycia, neu wir gyfraddau llog yn wahanol i'r rhai a ragfynegir, bydd y perfformiad yn erbyn y gyllideb yn gyfatebol wahanol.

Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Nid yw Canllawiau LIC na Chod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth reoli trysorlys benodol i awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Mae'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh, ar ôl ymgynghori â'r Aelod Arweiniol dros Gyllid Sefydliad, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethiant yn credu bod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg ac effeithiolrwydd cost. Mae rhai strategaethau amgen, ynghyd â'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi eu rhestru isod.

Dewis Amgen	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risg
Buddsoddi mewn ystod cylach o bartïon i gontract a/neu am gyfnodau llai	Bydd incwm llogau yn is	Llai o debygolrwydd o golledion o ganlyniad i ddiffygion cysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn fwy
Buddsoddi mewn ystod ehangach o bartïon i gontract a/neu am gyfnodau hirach	Bydd incwm llogau yn uwch	Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygion cysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn llai
Benthyca symiau ychwanegol gyda chyfraddau llog sefydlog hirdymor	Bydd costau llogau dyledion yn codi; mae'n annhebygol y bydd hynny yn cael ei wrthbwysu gan incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith os digwydd diffyg; ond gall costau llog hirdymor fod yn fwy sicr
Benthyca tymor byr neu fenthyciadau amrywiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor	Ar y cychwyn bydd costau llogau dyledion yn is	Bydd codiadau costau llogau dyledion yn cael eu gwrthbwysu'n fras gan gynnydd mewn incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall costau hirdymor fod yn llai sicr
Lleihau lefel benthyca	Mae arbedion ar log dyled yn debygol o fod yn fwy yr incwm buddsoddi a gollir	Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith os digwydd diffyg; ond gall costau llog hirdymor fod yn llai sicr

Atodiad A - Tybiaethau tanategol Rhagamcanion Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose Ionawr 2020:

- Mae'r economi byd-eang wedi cyrraedd cyfnod o dwf gwannach fel ymateb i faterion gwleidyddol. Mae economi'r DU yn parhau i brofi twf arafach o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch Brexit ac arafu mewn gweithgaredd byd-eang. Fel ymateb, mae disgwyliadau parthed cyfraddau llog yn y DU ac yn fyd-eang yn isel.
- Mae peth positifrwydd yn y trafodaethau masnach rhwng Tsieina ac UDA wedi achosi i senarios economaidd achos gwaethaf gael eu cymedroli. Ond, mae gwybodaeth yn gyfyngedig, ac mae disgwyliadau gobeithiol wedi bod yn anghywir o'r blaen.
- Erbyn hyn mae Llywodraeth Geidwadol newydd y DU wedi mynd â ni i gyfnod pontio Brexit. Bydd yr amgylchedd gwleidyddol mwy sefydlog yn ysgogi dychweliad rhannol mewn hyder busnes ac aelwydydd yn y tymor byr, ond bydd y cyfnod pontio Brexit cyfyngedig dilynol, y mae'r llywodraeth yn ceisio ei orfodi, yn creu mwy o ansicrwydd economaidd.
- Rhewodd twf economaidd y DU yn Q4 2019. Mae chwyddiant yn is na'r targed o 1.3%. Nid yw canlyniadau chwyddiant marchnad lafur cymharol dynn wedi amlygu ei hun eto, tra dylai twf byd-eang arafach leihau'r tebygolrwydd o bwysau allanol, ond gallai ansefydlogrwydd gwleidyddol cynyddol barhau i godi prisiau olew.
- Bydd misoedd cyntaf 2020 yn dangos a fydd yr economi yn elwa o adferiad mewn hyder. Bydd y llywodraeth yn ymgymryd ag esmwytho ariannol sylweddol yn 2020/21 a dylai hynny helpu twf petai gostyngiad mewn gweithgaredd y sector preifat.
- Mae rhagolygon gwan ar gyfer economi'r DU a chwyddiant isel wedi rhoi pwysau ar MPC i lacio polisi ariannol. Pleidleisiodd dau aelod o'r MPC am ostyngiad ar unwaith yn y cyfarfod MPC diweddaraf yn Ionawr 2020. Bydd esblygiad y data economaidd a'r symudiadau gwleidyddol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf yn hysbysu polisi, ond mae'r risg i Gyfraddau Banc yn gyfyngedig iawn.
- Bydd camau y banc canolog a risgiau geowleidyddol yn parhau i greu ansefydlogrwydd sylweddol mewn marchnadoedd ariannol, yn cynnwys marchnadoedd bondiau.

Rhagolwg:

- Er ein bod wedi cynnal ein rhagolwg Cyfradd Banc ar 0.75% am y dyfodol rhagweladwy, mae risgiau sylweddol i'r rhagolwg yma yn dal i fodoli ar ffurf ansicrwydd ynghylch cyfnod pontio Brexit a thwf economaidd byd-eang.
- Mae Arlingclose yn barnu bod y risgiau wedi'u pwysoli am i waered.
- Mae arenillion gilt wedi codi ond yn dal yn isel oherwydd y rhagolygon economaidd meddwl yn y DU ac y fyd-eang. Bydd polisi ariannol UDA a gwariant llywodraeth y DU yn ddylanwadau allweddol ynghyd â pholisi ariannol y DU.
- Rydym yn disgwyl i arenillion gilt barhau i fod ar lefelau cymharol isel i'r dyfodol rhagweladwy a rydym yn barnu bydd y risgiau yn gytbwys yn gyffredinol.

	Mar-20	Jun-20	Sep-20	Dec-20	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Mar-22	Jun-22	Sep-22	Dec-22	Mar-23
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Arlingclose Central Case	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Downside risk	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
3-month money market rate													
Upside risk	0.10	0.10	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
Downside risk	0.50	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75	0.75
1yr money market rate													
Upside risk	0.10	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.20	0.25	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85	0.85
Downside risk	0.30	0.50	0.55	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65	0.65
5yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.40	0.45	0.45	0.45
Arlingclose Central Case	0.50	0.50	0.55	0.55	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.75	0.75	0.75
Downside risk	0.35	0.50	0.55	0.55	0.55	0.60	0.60	0.65	0.65	0.70	0.75	0.75	0.75
10yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.40	0.40	0.45	0.45
Arlingclose Central Case	0.75	0.80	0.80	0.85	0.85	0.90	0.90	0.95	0.95	1.00	1.05	1.10	1.10
Downside risk	0.40	0.40	0.40	0.40	0.45	0.45	0.45	0.45	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
20yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.40	0.40	0.45	0.45
Arlingclose Central Case	1.20	1.25	1.25	1.25	1.30	1.30	1.30	1.35	1.35	1.35	1.40	1.40	1.40
Downside risk	0.40	0.40	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.50	0.50
50yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.30	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.35	0.40	0.40	0.45	0.45
Arlingclose Central Case	1.20	1.25	1.25	1.25	1.30	1.30	1.30	1.35	1.35	1.35	1.40	1.40	1.40
Downside risk	0.40	0.40	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.45	0.50	0.50

Cyfradd Sicrwydd PWLB (benthyciadau Aeddfedrwydd) = Arenillion gilt + 1.80%

Cyfradd Seilwaith Lleol PWLB (benthyciadau Aeddfedrwydd) = Arenillion gilt + 0.60%

Atodiad B - Sefyllfa Buddsoddi a Phortffolio Dyledion Presennol

	31/12/2019 Gwir Bortffolio £m	31/12/2019 Cyfradd Gyfartalog %
Benthyciadau allanol:		4.31
Bwrdd Benthyciadau Gwaith	306.39	0.90
Cyhoeddus	40.00	4.84
Awdurdodau Lleol	15.30	5.00
Benthyciadau LOBO gan fanciau	8.50	0.00
Benthyciadau'r farchnad	1.46	
Benthyciadau eraill	371.65	
Cyfanswm benthyciadau allanol		
* Atebolrwydd tymor hir arall:		12.59
Menter Cyllido Preifat	25.30	4.46
Prydlesau	1.36	
Cyfanswm Atebolrwydd tymor hir arall	26.66	
Cyfanswm Dyled allanol gros	398.31	
Buddsoddiadau'r Trysorlys:		
Banciau a Chymdeithas Adeiladu (heb eu diogelu)	5.18	0.55
	0.00	
Llywodraeth (yn cynnwys awdurdodau lleol)	0.62	0.73
Cronfeydd marchnad ariannol		
Cyfanswm buddsoddiadau'r Trysorlys	5.80	
Dyled net	392.51	

*Ffigyrau wedi eu cymryd o 31 Mawrth 2019 yng ngoleuni anhawster o ran ailddatgan y ffigyrau yma yn ystod y flwyddyn.

Atodiad C - Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllawiau Buddsoddi diwygiedig yn Nhachwedd 2019 sydd yn gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

Cyfraniad: Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaethau a/neu hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cefnogaeth ariannol i'r sefydliadu hynny er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol y byddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, neu y mae'r Cyngor yn ystyried sydd yn fuddiol i les y gymuned.

Newid yn yr hinsawdd: Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hirdymor i'r hinsawdd er mwyn cefnogi economi carbon isel i'r graddau fel bod yr agenda datgarboneiddio, wrth gytuno ar ei raglen buddsoddi cyfalaf, yn cael ei adlewyrchu yn y broses benderfynu wrth ystyried bidiau prosiectau.

Buddsoddiadau penodol: Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodol fel rhai sydd yn bodoli pob un o'r canlynol:

- mewn punnoedd sterling,
- i'w had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant oni bai bod y parti i gontract yn awdurdod lleol,
- nid yw wedi ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf mewn deddfwriaeth, a
- mae wedi ei fuddsoddi yn naill ai:
 - Llywodraeth y DU,
 - awdurdodau Lleol y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, neu
 - gorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â sgôr credyd o A- neu uwch, sydd yn hanu o'r DU neu wlad dramor sydd a sgôr sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad ariannol a chronfeydd eraill a gronnir, diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â sgôr credyd o A- neu uwch.

Benthyciadau: Mae Canllawiau LIC yn diffinio benthyciad fel cytundeb llafar neu ysgrifenedig pan fo'r Cyngor yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, menter ar y cyd, is-endid neu gyswllt sydd yn cytuno ar ad-daliad yn unol â thelerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan mai awdurdod lleol arall yw'r trydydd parti.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i sefydliadau eraill (yn cynnwys cwmnïau mewn perchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd) yn gymesur drwy bennu'r cyfyngiadau yn nhabl C1. Mae'r rhain yn sicrhau bod cyfanswm amlygiad y Cyngor yn gytbwys ei natur ac yn unol ag awydd y Cyngor i ymgysylltu â'r math yma o weithgaredd. Ar hyn bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau yma a hunanaseswyd.

Tabl C1: Cyfyngiadau benthycia

Benthyciwr	Cyfyngiad arian parod
Buddsoddiadau rheoli trysorlys yn bodoli diffiniad o fenthyciad	Anghyfyngedig
Arall	£1m

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwylidig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir hynny yn Offerynnau Ariannol Safon Adrodd Ariannol 9 fel y mabwysiadir gan arferion priodol er mwyn mesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i rolau cymorth gwladol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol er mwyn adennill ad-daliadau gorddyledus.

Buddsoddiadau amhenodol: Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n bodloni'r diffiniad o fuddsoddiad penodol neu fenthyciad yn cael ei ddsbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori yma ond yn gymwys i unedau mewn cronfeydd a gronnir a chyfranddaliadau mewn cwmnïau. Mae cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn cael eu dangos yn nhabl C2; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol presennol yn dal o fewn y cyfyngiadau yma.

Tabl C2: Cyfyngiadau buddsoddi amhenodol

	Cyfyngiad arian parod
Unedau mewn cronfeydd a gronnir heb sgoriau credyd neu â sgôr is na A- (ar gyngor Ymgynghorwyr)	£3m
Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi mewn eiddo tirol	£9m
Cyfanswm Buddsoddiadau amhenodol	£12m

Buddsoddiadau nad ydynt yn ariannol: Mae'r categori yma yn cynnwys asedau nad ydynt yn ariannol a ddelir yn bennaf neu yn rhannol er mwyn cynhyrchu elw, sef eiddo buddsoddi yn bennaf. Mae diogelwch yn cae ei bennu drwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model a geir yn Safon Cyfrifo Rhyngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddasir gan arferion priodol. Nid yw'r Cyngor yn ystyried ei fod ar hyn o bryd yn dal unrhyw asedau o'r fath.

Ymgynghorwyr buddsoddi: Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar fuddsoddi, dyled a materion arian cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth yma yn cael ei reoli drwy gyfarfodydd adolygu rheolaidd a'r broses dendro gyfnodol angenrheidiol.

Buddsoddi arian a fenthycwyd cyn bod ei angen: Gall y Cyngor o dro i dro fenthycia cyn bod ei angen, pan ddisgwylir y bydd hynny yn darparu'r gwerth gorau am arian; ni fydd y Cyngor yn defnyddio'r dull yma er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Oherwydd bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi nes y cânt eu gwario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r risg y gall cyfraddau llog buddsoddi a benthycia newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau yma yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor ar risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r cyfyngiad benthycia awdurdodedig o £496.66 miliwn. Disgwylir mai cyfanswm y cyfnod rhwng benthycia a gwariant fydd dwy flynedd, ond nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gysylltu benthyciadau penodol ag eitemau penodol o wariant.

Capasiti a sgiliau: Mae anghenion staff rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer hyfforddiant mewn rholi buddsoddiadau yn cael eu hasesu bob chwe mis fel rhan o'r broses arfarnu staff, a hefyd pan fo cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae'r staff yn rheolaidd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA. Hefyd mae staff perthnasol yn cael eu hannog i astudio am gymwysterau proffesiynol gan CIPFA, Cymdeithas Trysoryddion Corfforaethol a sefydliadau priodol eraill.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod aelodau etholedig, yn gyfnodol, yn derbyn hyfforddiant ffurfiol gan yr ymgynghorwyr allanol a benodir.

Deliau masnachol: Mae aelodau'r Tîm Cyllid Corfforaethol yn ymdrechu i sicrhau bod egwyddorion y Cod Darbodus yn cael eu cydnabod ar draws yr holl ddisgyblaethau yn y Cyngor pan allai hynny effeithio ar benderfyniadau. Mae cyswllt rheolaidd gyda'r swyddogion hynny mewn timau sydd yn debygol o fod yn ymwneud yn uniongyrchol mewn gweithgaredd masnachol ar ran y Cyngor wedi ei ddylunio er mwyn cynnal dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â hynny.

Llywodraethu corfforaethol: Yn unol â Rheoli Trysorlys yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-sectoraidd (argraffiad 2017), bydd y Cyngor yn adrodd ar ei bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys, yn cynnwys, o leiaf, strategaeth a cynllun blynyddol ymlaen llaw, adolygiad canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ôl ei chau, ar ffurf a ragnodir yn ei Arferion Rheoli Trysorlys.